# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 15 Gorffennaf 2019** |
| Amser: | **12.30 - 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(5)2019(5)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Siân Gwenllian AC**<br>**David J Rowlands AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Tom Jackson, Clerc/Rheolwr Bil**<br>**Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant**<br>**Holly Pembridge, Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | **Robert (Bob) Evans, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawyd Bob Evans, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad, i'r cyfarfod.
Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies.

1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin.

## 2 Adroddiad blynyddol ACARAC

Cyflwynodd Bob Evans Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad i'r Comisiynwyr. Tynnodd sylw at nifer o agweddau ar y gwaith y canolbwyntiodd y Pwyllgor arno yn ystod y flwyddyn flaenorol, a nododd y casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn rhai cryf, cadarn a dibynadwy.

Soniodd am gwblhau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, gan roi sicrwydd ynglŷn â'i barodrwydd. Gan edrych ymlaen, soniodd fod y cyfnod i ddod yn debygol o barhau i fod yn heriol, ac y byddai'n werthfawr cadw hyblygrwydd ac ystwythder staff y Comisiwn.

Nododd y Pwyllgor adroddiad blynyddol ACARAC.

## 3 Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Cytunodd y Comisiynwyr ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

Gwnaethant nodi un mater a oedd wedi codi ers eu trafodion blaenorol, yn ymwneud â dyfarniad diweddar iawn yn y Goruchaf Lys a oedd wedi effeithio ar rwymedigaethau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yng nghyfrifon y Comisiwn.

Byddai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i osod cyn diwedd tymor yr haf.

## 4 Staff contract

Trafododd y Comisiynwyr wybodaeth ynghylch yr isafswm cyflog fesul awr ar gyfer staff contract, a delir ar gyfradd gyfredol y Living Wage Foundation.

Gwnaethant gytuno mewn egwyddor i gysylltu isafswm cyfradd cyflog contractwyr â chyfraddau staff a gyflogir yn uniongyrchol, a gofynnwyd am i'r goblygiadau i'r gyllideb gael eu harchwilio, fel y gellid eu cynnwys yn y trafodaethau parhaus o strategaeth y gyllideb.

## 5 Diwygio'r Cynulliad - y wybodaeth ddiweddaraf

Trafododd y Comisiynwyr ddwy brif thema parthed diwygio'r Cynulliad. Yn gyntaf, trafodwyd materion ynghylch ariannu'r Comisiwn Etholiadol a'i atebolrwydd yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed hyd yma ac, wedi trafod y mater, cytunasant i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i fireinio'r polisi a'r cynigion deddfwriaethol.

Yn ail, trafododd y Comisiynwyr argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas a Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Trafodwyd yr ymatebion i'r argymhellion, a chytunwyd i drafod ymhellach y posibiliad o anghymwyso Staff y Comisiwn rhag ymgeisio mewn etholiad.

## 6 Adroddiad blynyddol drafft ar Amrywiaeth a Chynhwysiant

Cytunodd y Comisiynwyr ar y gyfres o adroddiadau sy'n ymdrin â gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Fe wnaethant gefnogi'r cynnig i gyhoeddi'r adroddiad monitro ar ddata am y gweithlu a'r amrywiaeth o ran recriwtio ac adroddiad ar archwiliad cyflog cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel adroddiadau ar wahân er mwyn gwella tryloywder.

Croesawodd y Comisiynwyr y ffaith y byddai'r Comisiwn yn un o'r sefydliadau sector cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi rhywfaint o'r data.

## 7 Diweddariad ar Urddas a Pharch

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r arolwg Urddas a Pharch a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Fe wnaethant drafod y duedd gadarnhaol ac roeddent yn gefnogol i'r cynlluniau i lansio ymgyrch 'hawl i herio', gan gytuno i roi eu cefnogaeth bersonol. Trafodwyd pwysigrwydd rhoi hyder i bobl ar bob lefel ddeall lle mae ymddygiadau yn amhriodol.

## 8 Cynnig am gofeb

Cytunodd y Comisiynwyr ar gynnig gan Mick Antoniw AC am gofeb i'r Capten Archibald Dickson.

## 9 Papurau i’w nodi:

### 9.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr ugainmlwyddiant

Nododd y Comisiynwyr ddiweddariad pellach ar gynlluniau i nodi ugainmlwyddiant datganoli yng Nghymru, rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

### 9.2 Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Cafodd y Comisiynwyr y diweddariad arferol am benderfyniadau RAD diweddar.

### 9.3 Cofnodion drafft o gyfarfod ACARAC ym mis Mehefin

Nododd y Comisiynwyr gofnodion cyfarfod ACARAC a gyflwynwyd yn ôl yr arfer.

## 10 Unrhyw fater arall

- Penodiadau – wedi ymgynghori â hwy ym mis Ebrill, cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y broses i benodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

- Cyfeiriodd Joyce Watson at yr ohebiaeth a gafodd gan David Emery. Nododd y Comisiynwyr eu bod yn fodlon i'r trefniadau cyfredol aros yn ddigyfnewid.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod blaenorol, cytunodd y Comisiynwyr ar newidiadau i'r Cod Ymddygiad i Ymwelwyr.